# Amodau Cymryd Rhan

## Gwasanaeth Cefnogi TG
## CYG 044

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Mae'r Amodau Cymryd Rhan fel y'u nodir yn y ddogfen hon yn benodol i'r tendr hwn.  Dylai cyflenwyr gwblhau'r templed Amodau Cymryd Rhan a'i gyflwyno gyda'r dogfennau eraill ac unrhyw dystiolaeth ychwanegol, fel rhan o'u cynnig.

Nid yw'r wybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r Amodau Cymryd Rhan yn disodli'r wybodaeth a ddarperir gan y cyflenwr fel rhan o Wybodaeth Safonol y Cyflenwr ar y Platfform Digidol Canolog.

Cyfrifoldeb y cyflenwr yw sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r Amodau Cymryd Rhan yn gyflawn, yn gyfredol ac yn gywir.  Mae'n ofynnol i gyflenwyr dystio i hyn ar adeg cyflwyno'u cynnig tendr.

Dylai cyflenwyr nodi y bydd yr Amodau Cymryd Rhan yn cael eu hasesu cyn cam gwerthuso'r tendr.  Yn unol ag adran 19(3) o Ddeddf Caffael 2023, bydd y Comisiynydd yn anwybyddu cynnig cyflenwr os nad yw'r Amodau Cymryd Rhan yn cael eu bodloni. Bydd cyflenwyr sy'n bodloni'r Amodau Cymryd Rhan yn cael eu hasesu yn erbyn y meini prawf dyfarnu fel y nodir yn y Fanyleb.

Caniateir i awdurdodau contractio gynnwys Amodau Cymryd Rhan sy'n dod dan un o'r ddau bennawd isod yn unig:

- Gallu cyfreithiol ac ariannol i gyflawni'r contract
- Gallu technegol i gyflawni'r contract

# 1. Gallu Cyfreithiol ac Ariannol

1.1 Mae'n ofynnol i gyflenwyr ymateb i'r cwestiynau penodol a nodir yn y tabl isod sy'n ymwneud â gallu cyfreithiol ac ariannol y cyflenwr i gyflawni'r contract:

| Maes | Amod Cymryd Rhan | Gofyniad ymateb | Arweiniad |
|---|---|---|---|
| Ariannol | Dylai cyflenwyr ddarparu:<br>▪ Cyfrifon am y ddwy flynedd ariannol fwyaf diweddar a ddaeth i ben. (Dylid cyflwyno cyfrifon sydd wedi'u harchwilio lle mae endid yn destun archwiliad, fel arall dylid cyflwyno cyfrifon heb eu harchwilio)<br>▪ Pan fo'r endid yn rhan o grŵp, dylid hefyd ddarparu'r cyfrifon ar gyfer y rhiant-gwmni terfynol ar gyfer y ddwy flynedd ariannol fwyaf diweddaraf | Dogfen | Bydd sefyllfa ariannol yr endid (neu'r rhiant lle bo'n berthnasol) yn cael ei asesu yn unol â'r meini prawf a nodir isod. Dylai endidau esbonio lle nad yw methu unrhyw un o'r meini prawf hyn yn cynrychioli risg i sefydlogrwydd ariannol yr endid.<br>Gall y Comisiynydd benderfynu nad yw'r Amod Cymryd Rhan hwn wedi'i fodloni os nad yw endid yn bodloni'r meini prawf canlynol:<br>▪ Cyfrifon wedi'u cyflwyno erbyn y terfyn amser<br>▪ Enillion cyn Llog a Threth > £0<br>▪ Cronfeydd wrth Gefn Refeniw > £0<br>▪ Asedau Cyfredol Net > £0<br>▪ Cymhareb Prawf Asid > 0.5<br>▪ Cymhareb Geriad < 2.0 |
| Yswiriant | Darparu tystiolaeth bod yswiriant yn cael ei ddal i'r lefel yswiriant a nodwyd. Lle nad yw yswiriant yn cael ei ddal ar hyn o bryd, bydd yn ofynnol bod polisïau ar waith ar ôl dyfarnu contract.<br>▪ Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr<br>▪ Yswiriant Atebolrwydd Cynnyrch<br>▪ Yswiriant Indemniad Proffesiynol<br>▪ Yswiriant Tarfiad Busnes | Dogfen | Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr (£5,000,000)<br>Yswiriant Atebolrwydd Cynnyrch (£2,000,000)<br>Yswiriant Indemniad Proffesiynol (£1,000,000)<br>Yswiriant Tarfiad Busnes (£200,000) |

## 2. Gallu Technegol

2.1 Mae'n ofynnol i gyflenwyr ymateb i'r cwestiynau penodol a nodir yn y tabl isod sy'n ymwneud â gallu technegol y cyflenwr i gyflawni'r contract:

| Maes | Amod Cyfranogiad | Ymateb | Arweiniad |
|---|---|---|---|
| Cymwysterau ac Achrediadau<br>(Rheoli Prosiect) | Tystiolaeth bod gan y cyflenwr adnoddau digonol sy'n gymwys neu sydd ag achrediadau proffesiynol (aelodaeth) megis:<br>▪ Association of Project Management<br>▪ PRINCE2<br>▪ Project Management Institute | Dogfen | LOT 3 – Gwaith Ad-hoc a Phrosiectau yn unig<br><br>Caniateir cymwysterau, achrediadau proffesiynol (aelodaeth) a gydnabyddir yn rhyngwladol sydd cyfwerth â rhai y DU<br><br>Gall y Comisiynydd benderfynu nad yw’r Amod Cymryd Rhan hwn wedi'i fodloni os nad yw endid yn bodloni'r maen prawf. |
| Cymwysterau ac Achrediadau<br>(Diogelwch TG) | Tystiolaeth bod gan y cyflenwr achrediadau megis:<br>▪ Cyber Essentials / Cyber Essentials PLUS<br>▪ ISO 27001 | Dogfen | Caniateir cymwysterau, achrediadau proffesiynol (aelodaeth) a gydnabyddir yn rhyngwladol sydd cyfwerth â rhai y DU |
| Diogelu Data | Cadarnhad bod data sy'n cael ei storio / brosesu ar ran Comisiynydd y Gymraeg yn cael ei storio / brosesu mewn canolfannau data sydd wedi'u lleoli yn y DU / aelod-wladwriaeth yr UE / gwlad Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA). Ni ddylid storio / prosesu data mewn canolfan ddata y tu allan i'r awdurdodaethau hynny. | Dogfen | |